
**Ni all y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig roi cymorth uniongyrchol i'r rhai sydd eisoes yn derbyn gofal a chymorth gan wasanaethau, yn cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Cymdeithasol.**
**Yn yr achosion hyn bydd yr IAS yn cefnogi'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y meysydd hyn.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth neu'n dymuno ffurflen gyfeirio, cysylltwch â'r:




Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig
Ysbyty Tonna
Tonna
Castell-nedd
SA11 3LX



SBU.WBIAS@wales.nhs.uk

https://bipba.gig.cymru/gwasanaethau-cymunedol-lleol/a-z-gwasanaethau-cymunedol-lleol/gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-baer-gorllewin/



Ffôn: 01639 862 936
Mae gwasanaeth peiriant ateb ar gael.

V6 05/02/2021

# Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Bae'r Gorllewin

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) yn wasanaeth i gefnogi oedolion awtistig, aelodau o'u teulu ac unrhyw un sy'n rhoi cymorth (yn cynnwys gweithwyr proffesiynol). Rydyn ni hefyd yn cynnig cymorth i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc awtistig.

Gall unrhyw un gyfeirio eu hunain i'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig.

Mae Bae'r Gorllewin yn cynnwys Abertawe, Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr.

# Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig



Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu cefnogaeth uniongyrchol i oedolion awtistig. Rydyn ni hefyd yn darparu cyngor, cefnogaeth a chyfeiriadau ar gyfer rhieni sy’n gofalu am blant, pobl ifanc ac oedolion awtistig.

**Gall oedolion eu cyfeirio eu hunain am asesiad os ydynt yn credu y gallen nhw fod yn awtistig.**



**Gall oedolion awtistig sydd wedi derbyn diagnosis ar unrhyw adeg yn eu bywydau ddefnyddio’r gwasanaeth er mwyn cael:**



- cymorth i ddeall awtistiaeth
- cymorth **tymor byr** uniongyrchol
- cymorth i gael mynediad i wasanaethau eraill a allai gynnwys cyflogaeth, addysg, iechyd, a gweithgareddau hamdden.



**Gall gweithwyr proffesiynol o unrhyw wasanaeth gysylltu â’r IAS am:**

- ymgynghoriad, cyngor a chymorth am sut i deilwra ymyrraeth mewn ffordd sy’n ystyriol o awtistiaeth.

# Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig



Mae’r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig hefyd yn cynnig:

- Cyrsiau Cymorth yn dilyn Diagnosis
- Hybiau Cyngor am Awtistiaeth – mae’r rhain ar gael i unrhyw un sydd â chwestiwn yn ymwneud ag awtistiaeth.



**Ni fydd** y gwasanaeth yn derbyn cyfeiriadau ar gyfer:

- gwaith uniongyrchol gyda phlant
- ymyrraeth frys neu mewn argyfwng
- gofal seibiant
- asesiadau diagnostig ar gyfer pobl o dan 17 oed, 9 mis
- meddyginiaeth drwy bresgripsiwn neu fonitro meddyginiaeth
- cyfrannu neu reoli gofal yn y tymor hir.

**Mae gwasanaethau eraill ar gael i helpu gyda’r materion hyn.**